# CANLLAW AELODAU

Canllaw i'ch Ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodareth Leol (CPLlL)

**Ebrill 2024**

# Cynnwys

**Canllaw i'ch Ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)**

**Cyflwyniad**

**Rhan 1.  Y CPLIL**

Ydych yn ystyried Ymddeol o CPLIL?

A fydd fy muddion yn cael eu lleihau pe byddwn yn penderfynu ymddeol cyn fy Oed Pensiwn Arferol (OPA)?

Alla i barhau i weithio ar ôl fy OPA?

Alla i barhau i weithio gan symud tuag at ymddeoliad yn raddol?

Sut y cyfrifir fy muddion?

Aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014

Aelodaeth o 1 Ebrill 2014

Enghraifft 1 – Cyfrifo buddion CPLIL

Tabl 1:

Buddion a gronnwyd yn y cynllun cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014

Dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth

Sut fydd fy Lwmp Swm yn cael ei dalu?

Ailgylchu

Cynyddu fy mhensiwn

Cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY)

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) mewnol

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd (CGYRh)

Pensiynau personol neu rhan-ddeiliad

Rheolaethau treth a'ch pensiwn

Lwfans blynyddol

Lwfans oes

Beth os ydwyf yn ymddeol oherwydd salwch?

Beth os wyf yn cael fy ngwneud yn ddi-waith neu fod fy swydd bresennol yn terfynu oherwydd effeithlonrwydd?

Cymryd eich pensiwn CPLIL – y broses

A allaf fforddio i ymddeol?

Eich Pensiwn CPLIL

Faint o rybudd fydd angen i mi ei roi?

A allaf gael amcangyfrif o'm buddion?

Cael cymorth pellach
A ydw i wedi cysylltu â’m holl ddarparwyr pensiwn eraill?
Wedi eich Ymddeoliad
Sut a phryd fydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?
Beth os ydwyf yn penderfynu byw dramor?
Beth os yw fy manylion yn newid?
Treth Incwm
Ailbrisio eich Pensiwn
Slip Tâl
Hysbysiad P60
Cyflogaeth arall
Marwolaeth mewn Ymddeoliad
Buddion Goroeswr
Cymorth os oes gennych ymholiad neu gŵyn

**Rhan 2 – Gwybodaeth Ddefnyddiol Eraill**
Pensiwn Gwladol
Treth a'ch pensiwn
Olrhain hawliau pensiwn blaenorol
Sgamiau pensiwn
Ble i fynd am gymorth

**Cynlluniwr Cyllideb**
**Sut i ddarganfod mwy**
**Diogelu Data**
**Ymwadiad**

# Canllaw i'ch Ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw yma yn egluro mewn termau syml, y trefniadau ar gyfer taliad eich buddion pensiwn ar eich ymddeoliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) o dan eich cyflogaeth gyfredol.

Mae rhan un y canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y CPLlL. Mae'n cwmpasu'r amddiffyniad ariannol y mae'r CPLlL yn ei gynnig i chi a'ch teulu. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ymddeol a'r penderfyniadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud.

Mae rhan dau yn edrych yn ehangach ar faterion a allai effeithio arnoch chi ar ôl ymddeol. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am drethiant a Phensiwn y Wladwriaeth. Gallwch hefyd ddod o hyd i ddolenni a manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau a all eich cefnogi.

Pwrpas y canllaw hwn yw cynorthwyo aelodau gyda'u cynllunio ymddeol. Ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor ariannol. Os oes angen cyngor ariannol arnoch, dylech benodi cynghorydd ariannol annibynnol.

# <u>Rhan 1</u>. Y CPLIL

**Ydych yn ystyried Ymddeol o CPLIL?**

Fel aelod o'r CPLIL mae gennych nifer o ddewisiadau wrth ymddeol. Tra bod eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA) yn y Cynllun yn hafal i'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW), mae gennych hyblygrwydd i ymddeol yn wirfoddol o 55 mlwydd oed, ond gallwch hefyd barhau yn y Cynllun ar ôl eich OPA, ar yr amod bod eich buddion yn daladwy cyn 75 mlwydd oed. Mae gennych hefyd yr opsiwn o ymddeol yn hyblyg gyda disgresiwn eich Cyflogwr o 55 mlwydd oed. Nodwch y bydd unrhyw gynnydd i'ch OPW yn y dyfodol yn golygu cynnydd i'ch OPA.

Wedi ymddeol byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol yn daladwy am oes, lwmp swm rhydd o dreth awtomatig (os yn aelod ar neu cyn 31 Mawrth 2008), a'r dewis i gyfnewid pensiwn am arian parod rhydd o dreth.

**A fydd fy muddion yn cael eu lleihau pe byddwn yn penderfynu ymddeol cyn fy Oed Pensiwn Arferol (OPA)?**

Gall eich buddion gael eu lleihau i gymryd taliad cynnar i ystyriaeth. Fodd bynnag os oeddech yn aelod o'r Cynllun ar neu cyn **30 Medi 2006,** gallasai cyfran neu'r cyfan o'ch buddion gael eu diogelu rhag unrhyw leihad. Am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at daflen wybodaeth rheol 85 mlynedd sydd ar gael gan y Gronfa Bensiwn.

Nodwch os gwelwch yn dda NAD yw'r lleihad yn berthnasol os ydych yn cael diswyddiad gormodedd neu eich bod yn gorfod ymddeol yn gynnar ar sail effeithiolrwydd ar ddymuniad eich cyflogwr.

Dangosir lefel y lleihad a weithredir ar daliadau buddion cynnar drosodd.

| Nifer o flyn. a dalwyd yn gynnar | Lleihad Pensiwn Blynyddol | Lleihad Lwmp Swm Awtomatig |
|---|---|---|
| 1 | 4.9% | 1.7% |
| 2 | 9.3% | 3.3% |
| 3 | 13.5% | 4.9% |
| 4 | 17.4% | 6.5% |
| 5 | 20.9% | 8.1% |
| 6 | 24.3% | 9.6% |
| 7 | 27.4% | 11.1% |
| 8 | 30.3% | 12.6% |
| 9 | 33.0% | 14.1% |
| 10 | 35.6% | 15.5% |
| 11 | 39.5% | DB |
| 12 | 41.8% | DB |
| 13 | 43.9% | DB |

**Alla i barhau i weithio ar ôl fy OPA?**

Os ydych yn parhau i weithio ar ôl eich OPA, gallwch barhau i gyfrannu i'r CPLIL a chronni buddion pellach hyd nes y byddwch yn dewis ymddeol neu gyrraedd 75 mlwydd oed.  Fe delir eich pensiwn ar raddfa gynyddol i adlewyrchu y bydd yn cael ei dalu dros gyfnod llai**.  Dylech siarad â'ch cyflogwr ynglŷn â gweithio ymhellach na'ch OPA.**

**Alla i barhau i weithio gan symud tuag at ymddeoliad yn raddol?**

Mae'n bosibl i chi dderbyn yr holl fuddion pensiwn yr ydych wedi eu casglu hyd yma a pharhau i weithio, ar yr amod eich bod un ai yn lleihau'r oriau yr ydych yn eu gweithio neu symud i swydd ar raddfa is, cyn belled â'ch bod yn 55 mlwydd oed neu hŷn a bod gennych ganiatâd eich cyflogwr i wneud hynny.  Adnabyddir hyn fel **ymddeoliad hyblyg**.

Dylech nodi hefyd y gellir lleihau eich buddion i adlewyrchu taliad ymddeoliad cynnar (ar ddisgresiwn eich cyflogwr).

## Sut y cyfrifir fy muddion?

Ni fydd y buddion pensiwn yr ydych wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 bellach yn gysylltiedig â'ch cyflog terfynol. Yn hytrach bydd y buddion o'r dyddiad hwn yn cael eu cyfrifo ar Gyfartaledd eich Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (Cyfartaledd Gyrfa). Fodd bynnag, os oes gennych aelodaeth yn y cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd eich buddion cyflog terfynol yn cael eu diogelu a byddent yn parhau i gael eu cyfrifo gan gyfeirio at eich cyflog pensiynadwy pan fyddwch yn ymddeol.

Mae amddiffyniad pellach wedi'i roi i aelodau a oedd o fewn 10 mlynedd o'u Hoedran Ymddeol Arferol (fel rheol 65 mlwydd oed) ar 1 Ebrill 2012 h.y. y rhai dros 55 mlwydd oed ar 1 Ebrill 2012. Os ydych yn y categori yma, bydd eich buddion pensiwn pan fyddwch yn ymddeol yn cael ei asesu er mwyn sicrhau eich bod ddim ar eich colled ar ôl cyflwyno'r CPLlL 2014 o 1 Ebrill 2014.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y CPLlL, i gael gwared ar y gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran a nodwyd yn nyfarniad McCloud.

Yn y CPLlL, mae'r Llywodraeth yn cynnig rhoi amddiffyniad sy'n hafal i'r amddiffyniad a ddarperir i aelodau hŷn i aelodau iau cymwys pan newidiwyd y Cynllun yn 2014. Os ydych chi'n gymwys i gael ei amddiffyn, bydd yn berthnasol yn awtomatig - nid oes angen i chi wneud hawliad

## Aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014

Ar gyfer aelodaeth a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n hafal i 1/80 o'ch cyflog terfynol, yn ogystal â lwmp swm di-dreth awtomatig o 3 gwaith y pensiwn hwn. Mae'r cyfrifiad hwn hefyd yn seiliedig ar eich aelodaeth o'r cynllun, sy'n cael ei addasu os oeddech yn gweithio'n rhan amser. Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n hafal i 1/60 o'ch cyflog terfynol, ond does DIM hawl i lwmp swm awtomatig. Fodd bynnag, byddwch yn cael y dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth pan fyddwch yn ymddeol.

## Aelodaeth o 1 Ebrill 2014

Bob blwyddyn o aelodaeth yn y prif gynllun byddwch yn cronni pensiwn sy'n gyfwerth â 1/49 o'r cyflog pensiynadwy a gawsoch yn y flwyddyn honno (o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth). Eich tâl pensiynadwy yw'r swm tâl yr ydych yn talu cyfraniadau pensiwn arno. Os ydych wedi dewis i ymuno â'r adran 50/50 y cynllun, bydd y gyfradd y mae eich pensiwn yn cronni yn hanner y gyfradd hon, hy 1/98 o'ch cyflog pensiynadwy. Bydd y pensiwn yr ydych yn cronni o 1 Ebrill - 31 Mawrth wedyn yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn ac yn cael ei ailbrisio yn unol â chostau mynegai byw priodol bob mis Ebrill.

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut bydd eich buddion pensiwn yn cael ei gyfrifo, os oes gennych aelodaeth cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2014.

## Enghraifft 1 – Cyfrifo buddion CPLlL

Buddion yn seiliedig ar 27 mlynedd o aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008:

Pensiwn: 27/80 x £22,000 = **£7,425**
Lwmp swm: 3 x 27/80 x £22,000 = **£22,275**

Buddion yn seiliedig ar chwe blynedd o aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014:

Pensiwn: 6/60 x £22,000 = **£2,200**

**Tabl 1:**
**Buddion a gronnwyd yn y cynllun cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014**

| Blwyddyn Cynllun | Balans agoriadol | Pensiwn wedi'i gronni ym mlwyddyn Cynllun | Cyfanswm Cyfrif 31 Mawrth | Addasiad costau byw (CPI) | Cyfanswm y cyfrif wedi'i ddiweddaru |
|---|---|---|---|---|---|
| 2014/15 | £0.00 | £18,500 / 49 = £377.55 | £377.55 | £4.53 (1.2%) | £382.08 |
| 2015/16 | £382.08 | £19,000 / 49 = £387.76 | £769.84 | -£0.77 (-0.1%) | £769.07 |
| 2016/17 | £769.07 | £20,000 / 49 = £408.16 | £1,177.23 | £11.77 (1.0%) | £1,189.00 |
| 2017/18 | £1,189.00 | £21,000 / 49 = £428.57 | £1,617.57 | £48.53 (3.0%) | £1,666.10 |
| 2018/19 | £1,666.10 | £22,000 / 49 = £448.98 | £2,115.08 | £50.76 (2.4%) | £2,165.84 |
| 2019/20 | £2,165.84 | £22,000 / 49 = £448.98 | £2,614.82 | £44.45 (1.7%) | £2,659.27 |

Mae gan yr aelod hawl i Bensiwn Blynyddol o **£12,284.27,** sy'n cynnwys pensiwn wedi'i gronni fel a canlyn.

- cyn 1 Ebrill 2008: £7,425.00
- rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014: £2,200.00
- ar ôl 31 March 2014: £2,659.27

A hefyd hawl i Lwmp Swm di-dreth o **£22,275**.

## Dewis i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth

Am bob £1 o bensiwn yr ydych yn ei ildio, gallwch dderbyn £12 o lwmp swm ychwanegol; wedi ei gyfyngu i **25% o'r Gwerth Cyfalaf** o'ch buddion pensiwn, fel gosodwyd gan CThEM, sy'n cynnwys eich lwmp swm awtomatig rhydd o dreth sydd wedi ei seilio ar eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008. Cofiwch; dewisol yw'r opsiwn yma ac nid yw'n orfodol. Nid oes rhaid i chi gyfnewid yr uchafswm, gallwch ddewis swm is. Efallai y bydd swm y cyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd o'r CPLlL yn cael ei effeithio os bydd gwerth eich buddion yn uwch na'r lwfans oes.

Byddwn yn gofyn ichi am fanylion unrhyw bensiynau sydd eisoes yn cael eu talu neu heb ei gymryd pan gymerwch eich pensiwn.

Mae cymryd cyfandaliad mwy yn lleihau eich pensiwn ond nid yw'n lleihau unrhyw bensiwn goroeswr a delir ar ôl i chi farw i'ch priod, partner sifil, partner cyd-fyw cymwys neu blentyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n meddwl yn ofalus am yr opsiwn hwn cyn i chi gymryd eich pensiwn. Ni fydd yn bosibl gwrthdroi eich penderfyniad ar ôl i'ch pensiwn gael ei dalu. Efallai y byddwch am geisio Cyngor Ariannol Annibynnol ar y mater.

## Sut fydd fy Lwmp Swm yn cael ei dalu?

Telir eich lwmp swm yn syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu o'ch dewis. Gallwch ddewis i'ch lwmp swm a'ch pensiwn gael eu talu i gyfrifon gwahanol os ydych yn dymuno hynny. Gwneir y taliad yn fuan ar ôl diwrnod diwethaf eich cyflogaeth ar yr amod eich bod wedi dychwelyd yr holl ffurflenni a thystysgrifau angenrheidiol.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ymgeisio Cyngor Ariannol Annibynnol ynglŷn â buddsoddi eich lwmp swm.

## Ailgylchu

Os ydych yn defnyddio eich lwmp swm di-dreth i gynyddu'n sylweddol y cyfraniadau rydych yn eu talu i gynllun pensiwn, gelwir hyn yn 'ailgylchu'. Mae hwn yn faes cymhleth a bydd Cyllid a Thollau EM ond yn ystyried bod ailgylchu wedi digwydd os yw'r holl amodau perthnasol yn cael eu bodloni. Os yw Cyllid a Thollau EM o'r farn bod ailgylchu wedi digwydd, yna bydd yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

Gallwch ddarganfod mwy am ailgylchu lwmp swm gan Gyllid a Thollau EM. Efallai yr hoffech ofyn am gyngor ariannol rheoledig os ydych chi'n credu y gallai ailgylchu fod yn berthnasol i chi.

## Cynyddu fy mhensiwn

Bydd y cynlluniwr cyllideb ar ddiwedd y canllaw hwn yn eich helpu i gyfrifo pa incwm y bydd ei angen arnoch pan fyddwch yn rhoi'r gorau i weithio. Yn yr adran hon, edrychwn ar ffyrdd y gallech gynyddu'r incwm hwnnw.

Gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu eich pensiwn trwy dalu:

- Cyfraniadau pensiynau ychwanegol (CPY)
- Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) mewnol
- CGY rhydd
- I mewn i bensiynau personol neu bensiynau rhan-ddeiliaid

**Cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY)**

Os ydych chi ym mhrif adran y Cynllun, gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu hyd at £8,344 o bensiwn blynyddol. Mae unrhyw bensiwn ychwanegol rydych chi'n ei brynu yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn CPLlL. Gallwch dalu am y pensiwn ychwanegol hwn trwy gyfraniadau rheolaidd o'ch cyflog neu drwy dalu lwmp swm unwaith.

**Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) mewnol**

Mae cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) yn caniatáu ichi dalu mwy i gronni arbedion ychwanegol ar gyfer eich ymddeoliad. Buddsoddir CGY mewnol ar wahân mewn cronfeydd a reolir gan ein darparwr CGY mewnol, sef Prudential neu Standard Life (neu Utmost Life & Pensions, gynt yn Equitable Life).

Pan gymerwch eich pensiwn CPLlL, gallwch ddefnyddio'ch cronfa CGY i brynu incwm gwarantedig am oes (blwydd-dal) neu brynu pensiwn CGY atodol. Yn ddarostyngedig i derfynau Cyllid a Thollau EM, efallai y gallwch gymryd hyd at 100% o'ch cronfa CGY fel lwmp swm di-dreth. Gallwch drosglwyddo'ch cronfa CGY i gynllun pensiwn neu drefniant arall ar unrhyw adeg cyn i chi gymryd eich pensiwn CPLlL.

**Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd (CGYRh)**

Mae'r rhain yn debyg i CGY mewnol ond nid ydynt yn gysylltiedig â'r CPLlL mewn unrhyw ffordd. Gyda CGYRh, rydych chi'n dewis darparwr, fel arfer cwmni yswiriant. Efallai yr hoffech ystyried eu gwahanol fuddsoddiadau amgen a'u perfformiad yn y gorffennol.

## Pensiynau personol neu rhan-ddeiliad

Gallwch dalu i mewn i gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn rhan-ddeiliaid ar yr un pryd â thalu i mewn i'r CPLlL. Mae angen i chi ystyried taliadau, buddsoddiadau amgen a pherfformiad yn y gorffennol pan fyddwch chi'n dewis darparwr.

Fe'ch cynghorir i gael cyngor ariannol cyn cymryd unrhyw fath o gynilion pensiwn ychwanegol.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dalu ychwaneg i gynyddu eich pensiwn ar wefan aelod CPLlL. Gallwch hefyd wylio'r fideos Pensiynau wedi'u gwneud yn syml, gan gynnwys 'Gofalu am eich pensiwn'.

## Nodwch os gwelwch yn dda

O dan ddeddfau cyfredol CThEM, mae'n bosib cymryd holl werth eich cronfa CGY fel arian rhydd o dreth (yn amodol ar gyfyngiad Gwerth Cyfalaf uchod). Fodd bynnag, os rhagorir ar y cyfyngiad yma, efallai na fyddwch yn gallu cymryd yr holl o'ch cronfa CGY fel arian rhydd o dreth. Cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn am ragor o fanylion.

## Rheolaethau treth a'ch pensiwn

Un o fuddion cynilo pensiwn gyda'r CPLlL yw eich bod yn derbyn rhyddhad treth ar y cyfraniadau rydych chi'n eu talu. Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn cyfyngu ar faint o ryddhad treth pensiwn y gallwch ei dderbyn. Bydd y mwyafrif o bobl yn gallu cynilo cymaint ag y dymunant oherwydd bydd eu cynilion pensiwn yn llai na'r terfynau.
Os ydych chi'n ystyried talu'n ychwanegol, mae'n bwysig eich bod chi'n ymwybodol o'r terfynau hyn. Nid oes cyfyngiad ar swm y cyfraniadau y gallwch eu talu. Dim ond mewn cyfraniadau treth hyd at 100% o'ch enillion trethadwy y byddwch yn eu cael mewn blwyddyn dreth.
Rheolau Cyllid a Thollau EM sy'n cyfyngu ar eich cynilion pensiwn yw'r lwfans blynyddol a'r lwfans oes.

## Lwfans blynyddol

Mae'r lwfans blynyddol yn derfyn ar faint y gall eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb i chi orfod talu tâl treth.

Yn y CPLIL, swm y lwfans blynyddol a ddefnyddir yw'r cynnydd yng ngwerth eich buddion pensiwn dros y flwyddyn dreth.

Ar gyfer trefniadau prynu arian, fel cynlluniau CGY, y lwfans blynyddol rydych chi'n ei ddefnyddio yw cyfanswm y cyfraniadau a dalwyd gennych chi, ac ar eich rhan, dros y flwyddyn dreth.

Byddwn yn eich hysbysu os yw eich cynilion pensiwn CPLIL yn fwy na'r lwfans blynyddol safonol o £ 60,000 trwy anfon datganiad arbedion pensiwn atoch. Rhaid anfon y datganiad atoch erbyn 6 Hydref yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth.

**Pwysig** - efallai eich bod chi'n talu i mewn i fwy nag un cynllun pensiwn. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio nad yw cyfanswm eich cynilion pensiwn ar draws pob cynllun yn fwy na therfyn y lwfans blynyddol.

## Lwfans oes

Dyma gyfanswm yr arbedion pensiwn (gan gynnwys cyfanswm gwerth eich holl gronfeydd pensiwn) y gellir eu cronni cyn mynd i dâl treth ychwanegol. Y lwfans oes i'r mwyafrif o bobl yw £1,073,100 hyd at 5ed Ebrill 2026.

Bydd yr holl fuddion pensiwn yn cyfrif tuag at y lwfans oes. Mae hyn yn cynnwys Cronfeydd Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (yn annibynnol ac yn fewnol), pensiynau personol/grŵp, pensiynau rhan-ddeiliaid, contractau blwydd-dal ymddeol, hawliau a gedwir mewn cynlluniau galwedigaethol eraill, pensiynau sydd eisoes yn cael eu talu a chredydau pensiwn sy'n deillio o setliadau ysgariad.

Bob tro y byddwch yn tynnu buddion o drefniant pensiwn ar ôl, 5 Ebrill 2006, dylai'r darparwr pensiwn ddweud wrthych, ganran y lwfans oes a ddefnyddir. Pan ddaw hawl gennych i dderbyn budd-dal pensiwn, bydd yn rhaid i chi gynghori eich darparwr pensiwn ynghylch swm y lwfans oes a ddyrannwyd eisoes (os yw'n hysbys).

Mae'r datganiad hwn wedi'i gynnwys yn eich pecyn ymddeol. Sylwch **NA** fydd eich buddion yn cael eu talu nes bydd y datganiad hwn yn cael ei ddychwelyd.

Pe bai cyfanswm gwerth eich hawliau pensiwn yn fwy na'r lwfans oes, bydd eich hawliau pensiwn yn destun tâl treth - yn ychwanegol at gymhwyso treth incwm yn arferol.

## Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lwfansau oes a blynyddol gan gynnwys offer i wirio'ch lwfansau, ar wefan aelod y CPLlL. Gallwch hefyd wylio'r fideos Pensiynau wedi'u gwneud yn syml, 'Eich lwfans blynyddol' a 'Eich lwfans oes'.

## Beth os ydwyf yn ymddeol oherwydd salwch?

I fod yn gymwys am bensiwn ymddeoliad cynnar oherwydd salwch, rhaid i chi fod yn barhaol analluog o weithredu dyletswyddau eich cyflogaeth bresennol yn effeithlon a bod lleihad yn y tebygolrwydd y byddwch yn ymgymryd ag unrhyw **waith cyflogedig*** cyn eich OPA.

Cyfeirir achosion i Ymarferwr Meddygol Cofrestredig Annibynnol, a fydd yn asesu eich gallu yn seiliedig ar y dystiolaeth feddygol a gyflwynir.

Yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad, efallai y bydd gennych hawl i daliad yn syth o'ch buddion pensiwn heb eu lleihau, a all hefyd gael eu cynyddu a bod yn daladwy am oes, yn dibynnu ar raddfa eich gwaeledd.

*Mae **Gwaith Cyflogedig** yn golygu gwaith cyflogedig am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

## Beth os wyf yn cael fy ngwneud yn ddi-waith neu fod fy swydd bresennol yn terfynu oherwydd effeithlonrwydd?

Cyn belled eich bod yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn, bydd y buddion pensiwn yr ydych wedi eu cronni hyd at y dyddiad gadael yn dod yn daladwy yn syth, heb eu lleihau ac wedyn yn daladwy am oes. **Nodwch os gwelwch yn dda y bydd gan eich Cyflogwr bolisi sy'n gosod allan ei safiad ar lefel yr iawndal y gall ei gynnig.**

**Nodwch y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â thaliadau ymadael na ellir eu cyfiawnhau. Fe'i gelwir yn gap ymadael y sector cyhoeddus. Bydd y cap yn cyfyngu ar faint o arian y gall cyflogwr yn y sector cyhoeddus ei dalu pan fydd gweithiwr yn gadael ei gyflogaeth. Nid yw'r Llywodraeth wedi cadarnhau eto pryd y bydd y cap ymadael neu fesurau pellach yn cael eu cyflwyno.**

Am ragor o wybodaeth am y mater hwn cysylltwch â'ch Cyflogwr os gwelwch yn dda.

# Cymryd eich pensiwn CPLIL – y broses

## A allaf fforddio i ymddeol?

Mae'n bwysig eich bod chi'n meddwl am incwm ymddeol cyn i chi adael eich swydd. Bydd rhai costau'n lleihau ar ôl i chi roi'r gorau i weithio. Efallai y bydd eich costau teithio yn gostwng, rydych yn debygol o dalu llai o dreth ac ni fyddwch yn talu yswiriant gwladol. Efallai y bydd costau eraill fel biliau cartref yn cynyddu pan fyddwch chi'n rhoi'r gorau i weithio.

Yn dibynnu ar eich oedran pan fyddwch chi'n rhoi'r gorau i weithio, efallai y gallwch chi gymryd eich Pensiwn Gwladwriaethol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth yn Rhan dau o'r canllaw hwn.

Rydym wedi darparu cynlluniwr cyllideb sylfaenol ar ddiwedd y canllaw hwn i'ch helpu chi.

Mae rhai cyflogwyr yn cynnig cyrsiau i'w gweithwyr sy'n agosáu at ymddeol. Bydd y pynciau dan sylw yn amrywio yn dibynnu ar bwy sy'n cyflwyno'r cwrs. Gall mynychu'r math hwn o sesiwn roi i chi:

- gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y dylech ei ystyried cyn ymddeol
- y cyfle i gael arbenigwr i ateb eich cwestiynau
- fforwm i rannu eich barn a'ch profiadau â chydweithwyr sydd hefyd yn agosáu at ymddeol.

Cysylltwch â'ch cyflogwr i ddarganfod pa hyfforddiant maen nhw'n ei gynnig.

## Eich Pensiwn CPLIL

Bob blwyddyn byddem yn cynhyrchu mynegiad buddion blynyddol, a fydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y swm pensiwn ac arian rhydd o dreth y gallwch ddisgwyl eu derbyn pan fyddwch yn ymddeol.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod faint fydd eich buddion pensiwn ar y dyddiad ymddeol o'ch dewis cyn i chi wneud eich penderfyniad terfynol. Efallai na fydd y ffigurau yn eich datganiad yn dweud wrthych:

- Y buddion gostyngedig a fyddai'n cael eu talu os byddwch chi'n ymddeol yn gynnar
- Y buddion a fyddai'n cael eu talu pe bai'ch cyflog neu'ch oriau gwaith wedi newid yn ddiweddar neu a fydd yn newid cyn i chi gymryd eich pensiwn
- Effaith gorchymyn rhannu pensiwn (os dyfarnwyd rhan o'ch pensiwn i'ch cynbartner yn dilyn ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil)
- Beth yw eich opsiynau os oes gennych CGY mewnol
- Os bydd cyfyngiadau Cyllid a Thollau EM ar gynilion pensiwn yn effeithio arnoch chi.

**Faint o rybudd fydd angen i mi ei roi?**

Rydym yn awgrymu y dylech drafod eich dyddiad ymddeol a natur yr ymddeoliad gyda'ch cyflogwr ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau taliad amserol o'ch buddion pensiwn.

Bydd eich Cyflogwr wedyn yn hysbysu'r Gronfa Bensiwn ac fe fydd eich pecyn pensiwn yn cael ei anfon atoch yn syth.

**A allaf gael amcangyfrif o'm buddion?**

Gallwch gael amcangyfrif o'r buddion CPLIL sy'n daladwy ar ddyddiad penodol trwy ysgrifennu / e-bostio atom neu drwy eich cyfrif
**Fy Mhensiwn Ar-lein**.

Bydd angen i'ch cyflogwr ofyn am amcangyfrif pensiwn ar eich rhan os ydych chi:

- ystyried ymddeol yn hyblyg
- mewn perygl o ddiswyddo dros 55 oed

Mae'r crynodeb isod yn dangos amlinelliad sylfaenol o'r broses a fydd yn cael ei dilyn ar ôl i chi wneud penderfyniad terfynol i gymryd eich pensiwn CPLLL.

<u>Cam 1</u>
Siaradwch â'ch cyflogwr a chytuno ar eich dyddiad ymddeol.

<u>Cam 2</u>
Mae'ch cyflogwr yn rhoi gwybodaeth i ni am eich cyflog, eich dyddiad gadael a'r rheswm dros adael.

Cam 3
Rydym yn cyfrifo ac yn amcangyfrif eich buddion pensiwn. Rydym yn anfon hwn atoch gyda ffurflenni i chi eu cwblhau a’u dychwelyd:

- Eich bod am gymryd eich pensiwn (os yw'n berthnasol)

ac, os ydych chi'n cymryd eich pensiwn:

- Eich opsiwn i gyfnewid pensiwn am lwmp swm
- opsiynau talu CGY, os oes gennych CGY mewnol

Gofynnir i chi hefyd am fanylion banc a chopi o'ch tystysgrif geni neu basbort.

Cam 4
Rydych chi'n dychwelyd y ffurflenni hawlio pensiwn ac unrhyw dystysgrifau perthnasol rydyn ni wedi gofyn amdanyn nhw.

**Cofiwch** - ar ôl i chi wneud penderfyniad ar:

- a ddylid cyfnewid pensiwn am gyfandaliad a
- sut rydych chi am i'ch AVC mewnol gael ei dalu

mae'r penderfyniadau hyn yn derfynol ac ni ellir eu gwrthdroi yn nes ymlaen.

Gofynnir i chi hefyd ddarparu manylion unrhyw fuddion pensiwn eraill y mae gennych hawl i'w derbyn (neu yr ydych eisoes yn eu derbyn), fel y gellir cynnal prawf yn erbyn eich Lwfans Oes.

Sylwch **NA** fydd eich buddion yn cael eu rhyddhau nes bod y datganiad hwn wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd i'r Gronfa Bensiwn.

Cam 5
Rydym yn trefnu talu eich pensiwn ac unrhyw gyfandaliad di-dreth ar ôl eich dyddiad ymddeol. Ar yr amod bod eich cyflogwr wedi rhoi'r rhybudd terfynu i ni na all ddigwydd dim ond ar ôl i daliad terfynol eich cyflog / cyflog gael ei wneud, a / neu i'ch ffigurau tâl pensiynadwy terfynol gael eu cyfrif.

## Cael cymorth pellach

Bydd y penderfyniadau a wnewch pan gymerwch eich pensiwn yn effeithio ar eich incwm yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwneud y penderfyniadau cywir.  Mae llawer o sefydliadau'n darparu cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth gyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth yn Rhan dau o'r canllaw hwn.

## A ydw i wedi cysylltu â’m holl ddarparwyr pensiwn eraill?

Dylech gysylltu â’ch darparwr/wyr pensiwn eraill i ddweud wrthynt am agosrwydd eich ymddeoliad a chasglu gwybodaeth am werth eich cronfeydd pensiwn.

Os ydych yn cyfrannu i gytundeb Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) efallai y byddwch yn dymuno gofyn i’r Adran Cyflogres eich cyflogwr i atal eich taliadau CGY yn ystod y mis cyn eich ymddeoliad, fel arall gall oedi ddigwydd yng nghyswllt taliad eich buddion CPLlL.

# Wedi eich Ymddeoliad

## Sut a phryd fydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?

Telir eich pensiwn blynyddol fesul ôl daliadau mis calendr tua diwedd y mis, fel arfer. Fe fydd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i Fanc neu Gymdeithas Adeiladu o'ch dewis chi. Bydd y Gronfa yn cadarnhau dyddiadau taliad yn eu pryd. Mae felly yn bwysig iawn eich bod yn rhoi Rhif Cyfrif a Chod Didoli cywir.

Bydd taliad cyntaf eich pensiwn yn berthnasol i'r cyfnod o ddyddiad eich ymddeoliad hyd at ddiwedd y mis, ac weithiau'r mis dilynol cyfan, yn dibynnu pryd yr ydych yn ymddeol. Nodwch os gwelwch yn dda **na all** y Gronfa dalu eich pensiwn i **Gyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post.**

## Beth os ydwyf yn penderfynu byw dramor?

Os ydych yn penderfynu ymfudo, fe barheir i dalu eich pensiwn i'ch cyfrif banc/cymdeithas adeiladu gyfredol oni bai eich bod yn dymuno iddo gael ei dalu i gyfrif tramor. Nodwch os gwelwch yn dda y gall gweithrediad tramor olygu cost fechan ar gyfer cyfnewid arian cyfred a throsglwyddiad taliad.

## Beth os yw fy manylion yn newid?

Os ydych yn newid eich cyfeiriad neu eich cyfrif banc /cymdeithas adeiladu rhaid i chi hysbysu'r Gronfa yn **ysgrifenedig** yn syth fel y gellir diweddaru eich cofnod.

Dylid trosglwyddo gwybodaeth am newidiadau i fanylion cyfrifon banc / cymdeithas adeiladu cyn canol y mis yr ydych eisiau i'r newid ddigwydd; neu gall eich pensiwn gael ei dalu i'ch cyfrif blaenorol. Nodwch os gwelwch yn dda bod yn rhaid i'r cyfrif banc / cymdeithas adeiladu fod yn eich enw chi neu enwau ar y cyd.

I newid eich cyfeiriad neu fanylion cyfrif banc /cymdeithas adeiladu, cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

## Treth Incwm

Mae eich pensiwn CPLIL yn drethadwy, ond fe delir eich lwmp swm yn rhydd o dreth.  Os fyddwch yn talu treth ai beidio wrth ymddeol yn dibynnu ar swm eich pensiwn a'ch amgylchiadau personol*.

Pan fyddwch yn ymddeol, dylech dderbyn copi o'ch P45.  Mae'n rhaid i'ch Cyflogwr anfon P45 ymlaen yn uniongyrchol i'ch Cronfa Bensiwn ble fydd y cod treth briodol yn cael ei roi yn erbyn eich pensiwn o dan drefniant dros dro arbennig.

Bydd y Gronfa wedyn yn hysbysu'r CThEM eich bod yn derbyn eich pensiwn ac fe fydd cod treth newydd yn cael ei roi.  Os na wyddoch eich cod treth yn syth, fe ddefnyddir cod dros dro hyd nes cyhoeddir cod briodol.

Os ydych yn dymuno gwneud ymholiad ynglŷn â'ch cod treth cysylltwch â'ch swyddfa dreth leol.

***Nodwch fod y lwfans blynyddol ar gyfer cynilion pensiwn treth freintiedig wedi cael ei osod ar £60,000 o fis Ebrill 2023.  Cysylltwch â'ch adran pensiwn am fanylion pellach.**

## Ailbrisio eich Pensiwn

Mae eich pensiwn blynyddol wedi ei ddiogelu'n llawn yn erbyn chwyddiant a bydd yn cael ei ailbrisio pob mis Ebrill yn unol â mynegai costau byw priodol.  Mae hyn yn berthnasol yn awtomatig i bensiynau salwch a goroeswyr.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

## Slip Tâl

Ni fydd y Gronfa yn anfon slip tâl i chi yn fisol, oni bai bod gwerth eich pensiwn net yn amrywio.  Byddwch yn derbyn slip tâl pan fyddwch yn ymddeol gyntaf, ond wedi hynny byddwch ond yn derbyn un yn fis Ebrill ac o bosib mis Mai bob blwyddyn, yn rhoi manylion o unrhyw gynnydd yn eich buddion pensiwn.

## Hysbysiad P60

Pob blwyddyn bydd eich Cronfa yn rhoi datganiad i chi a adnabyddir fel P60. Mae hwn yn rhoi manylion eich enillion CPLlL a'r dreth a dalwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol o Ebrill i Fawrth. Mae angen i chi gadw hwn yn ddiogel oherwydd mae cyrff eraill yn aml yn gofyn amdano fel tystiolaeth o enillion.

## Cyflogaeth arall

Os ydych yn cael swydd arall gyda Chyflogwr sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gall hyn effeithio ar eich pensiwn. Mae gan y Gronfa bolisi sefydlog ar y mater hwn, a gall eich pensiwn gael ei leihau neu ei ohirio.

Am ragor o wybodaeth ar y mater hwn, cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda. Ni fydd cael swydd gydag unrhyw gyflogwr y tu allan i CPLlL yn effeithio ar daliad eich pensiwn.

Os ydych yn cael gwaith gyda Chyflogwr sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rhaid i chi ddweud wrth eich Cronfa Bensiwn cyfredol a blaenorol yn **ysgrifenedig,** fel y gellir gwneud yr asesiad angenrheidiol.

## Marwolaeth mewn Ymddeoliad

Os ydych yn marw wrth dderbyn eich pensiwn, ni fydd eich buddion yn daladwy bellach. Mae'n rhaid i'ch priod, partner sifil cofrestredig, partner sy'n gyd fyw cymwys, perthynas agosaf, neu'r person sy'n ymdrin â'ch ystâd hysbysu'r Gronfa Pensiwn yn syth am eich marwolaeth i osgoi unrhyw ordaliad o'ch pensiwn.

Fodd bynnag, bydd lwmp swm grant marwolaeth yn daladwy os yw marwolaeth yn digwydd yn ystod 10 mlynedd gyntaf eich ymddeoliad ac eich bod dan 75 mlwydd oed. Y grant marwolaeth sy'n daladwy yw'r swm y mae'r pensiwn blynyddol wedi ei luosi gan 10 yn fwy na'r pensiwn a dalwyd hyd at ddyddiad marwolaeth (10 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw beth a dalwyd eisoes h.y. gweddill 10 mlynedd), llai unrhyw lwmp swm ychwanegol a dderbyniwyd o gyfnewid pensiwn a gronnwyd ar ôl 31 Mawrth 2014 adeg ymddeol.

Bydd grant marwolaeth ond yn daladwy os ydych dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth.  Dylech sicrhau eich bod wedi cwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth fel y gall y Gronfa ystyried eich dymuniad wrth wneud y taliad yma.

I dderbyn ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

**Nodwch**

Os ydych yn derbyn buddion pensiwn CPLlL arall yn sgil aelodaeth a ddaeth i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2008, y grant marwolaeth sy'n daladwy yw'r swm y mae'r pensiwn blynyddol wedi ei luosi gyda 5 yn fwy na'r pensiwn a dalwyd hyd at ddyddiad marwolaeth (5 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw beth a dalwyd eisoes h.y. balans 5 mlynedd).

Os oedd eich buddion pensiwn wedi cael eu gohirio ar 31 Mawrth 2008, neu cyn hynny, ac yna wedi dechrau cael eu talu ar 1 Ebrill 2008, neu ar ôl hynny, y grant marwolaeth a delir os digwydd ichi farw fel aelod sy'n bensiynwr yw 5 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw arian a dalwyd eisoes.  Yr unig bryd y telir grant marwolaeth yw os ydych yn marw'n iau na 75 mlwydd oed.

**Buddion Goroeswr**

Yn dilyn eich marwolaeth, bydd pensiwn goroeswr yn daladwy i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu bartner sy'n gyd fyw cymwys.  Mae pensiwn y goroeswr wedyn yn daladwy trwy gydol eu hoes.

Os gwnaethoch adael y cynllun ar 1 Ebrill 2014 neu ar ôl hynny, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn hafal i:

- 1/160ain o'ch tâl pensiynadwy x eich aelodaeth hyd at a chan gynnwys 31 Mawrth 2014 (oni bai eich bod yn priodi ar ôl eich ymddeoliad ac os felly gallai fod yn llai); plws
- 49/160ain o swm unrhyw bensiwn a gredydwyd i'ch cyfrif pensiwn ers 1 Ebrill 2014.

Os gwnaethoch adael y cynllun cyn 1 Ebrill 2014, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn hafal i:

- 1/160ain o'ch tâl terfynol x eich aelodaeth yn y cynllun hyd at 31 Mawrth 2014 (oni bai eich bod yn priodi ar ôl eich ymddeoliad, ac os felly gallai fod yn llai).

Efallai y bydd gan eich plentyn / plant cymwys hawl i bensiwn goroeswr hefyd, ar yr amod ei fod o dan 18 oed.  Gellir ymestyn hyn hyd at 23 oed os yw'n aros mewn addysg barhaus amser llawn neu'n ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol.

Os oes gennych blentyn sydd ag anallu corfforol neu feddyliol, gellir rhoi ystyriaeth arbennig, a gellir talu am y pensiwn cyhyd â bod yr anabledd yn parhau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn neu gallwch ddarganfod mwy am fuddion marwolaeth yn yr CPLlL ar wefan aelod CPLlL.  Gallwch hefyd wylio’r fideos Pensiynau wedi’u gwenud yn syml, gan gynnwys ‘Amddiffyniad i chi a’ch teulu’.

## Cymorth os oes gennych ymholiad neu gŵyn

Dylech gysylltu â ni os ydych chi:

- yn ansicr ynghylch eich pensiwn CPLIL
- bod â chwestiwn am eich aelodaeth neu fudd-daliadau CPLIL
- wedi profi unrhyw broblem sy'n gysylltiedig â'r CPLIL.

Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r mater rydych wedi'i godi mor gyflym ac effeithlon â phosibl trwy:

- darparu gwybodaeth goll i chi
- cywiro unrhyw anghywirdeb, a
- cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i unioni'r broblem rydych chi wedi'i phrofi.

Os ydych yn dal yn anfodlon ag unrhyw benderfyniad a wnaed ynghylch y CPLLL, gallwch gymryd camau pellach.

- Gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hadolygu o dan y Gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol (GDAM). Mae'r GDAM yn adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad, y weithred neu'r anwaith yr ydych yn cwyno amdano. I ddarganfod mwy am yr GDAM a'r terfynau amser sy'n berthnasol, cysylltwch â ni neu gwelwch y canllaw ar ein gwefan. Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hwn.

- Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (GCP). Gall GCP gynorthwyo gydag ymholiadau cyffredinol ynghylch buddion pensiwn. Gallwch ddarllen mwy am y gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig ar wefan GCP.

- Os oes gennych gŵyn am weinyddu neu reoli cynllun pensiwn, gallwch gysylltu â'r Ombwdsman Pensiynau. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a chyflwyno ffurflen gwyno ar-lein ar wefan Ombwdsman Pensiynau.

# Rhan 2 – Gwybodaeth Ddefnyddiol Eraill

## Pensiwn Gwladol

Yn ogystal â'ch buddion CPLLL, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael pensiwn ymddeol y wladwriaeth a delir gan y Llywodraeth.

Mae faint o bensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei dderbyn yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Ewch i wefan y Llywodraeth i gael mwy o wybodaeth am dderbyn eich Pensiwn Gwladol a sut i'w hawlio.

Gallwch hefyd ofyn am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth ar-lein.

## Treth a'ch pensiwn

Y Lwfans Personol yw swm yr incwm y gallwch ei ennill cyn talu treth. Y Lwfans Personol safonol ar gyfer 2024/2025 yw £12,570.

Os yw cyfanswm eich incwm trethadwy yn fwy na'ch Lwfans Personol yna byddwch yn talu treth. Ni fydd cyfraniadau yswiriant gwladol yn cael eu tynnu o'ch taliadau Pensiwn Llywodraeth Leol.

Bob blwyddyn bydd eich cyflogwr neu'ch cynllun pensiwn (os oes gennych bensiwn yn cael ei dalu) yn rhoi P60 i chi. Mae eich P60 yn dangos yr hyn a dalwyd i chi, a faint o dreth sydd wedi'i didynnu. Mae'n bwysig eich bod chi'n cadw'ch P60 mewn lle diogel.

I gael mwy o wybodaeth am dreth incwm, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM: **0300 200 1900** neu ewch i'w gwefan: www.hmrc.gov.uk/incometax

## Olrhain hawliau pensiwn blaenorol

Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod £400 miliwn mewn cynilion pensiwn heb eu hawlio. Mae pobl wedi arbed yr arian hwn ar gyfer eu hymddeoliad. I gynllunio ar gyfer eich ymddeoliad, mae angen i chi wybod faint o incwm y byddwch chi'n ei gael. Mae hyn yn cynnwys incwm o weithle neu gynlluniau pensiwn personol a Phensiwn y Wladwriaeth. Os ydych wedi colli trywydd pensiwn, mae gwasanaeth gan y Llywodraeth y gallwch ei ddefnyddio i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer:

- eich gweithle neu gynllun pensiwn personol eich hun
- cynllun rhywun arall os oes gennych eu caniatâd.

Gallwch gyrchu'r gwasanaeth trwy wefan y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn.

**Cofiwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch darparwyr pensiwn am unrhyw newid yn eich cyfeiriad cartref.**

## Sgamiau pensiwn

Rydych chi wedi gweithio'n galed i adeiladu'ch pensiwn CPLLL. Efallai y bydd sgamwyr yn ceisio cael gafael ar eich cynilion pensiwn.

Gall unrhyw un ddioddef sgam pensiwn, ni waeth pa mor wybodus ydyn nhw. Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu gweld yr arwyddion rhybuddio. Ffynhonnell: www.thepensionregulator.gov.uk/pension-scams

Mae sgamwyr yn ceisio perswadio cynilwyr pensiwn i drosglwyddo eu pensiwn cyfan, neu i ryddhau arian ohono. Maent yn gwneud addewidion sy'n swnio'n ddeniadol nad oes ganddyn nhw unrhyw fwriad i'w cadw.

I gael mwy o wybodaeth am sgamiau pensiwn a sut i ddod o hyd iddynt, ewch i wefan y Rheoleiddiwr Pensiwn.

## Ble i fynd am gymorth

Mae **Pension Wise** yn wasanaeth diduedd am ddim a gynigir gan y Llywodraeth i ddarparu arweiniad, ar ôl ichi gyrraedd 50 oed, i'ch helpu i ddeall eich opsiynau pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Darganfyddwch fwy ar wefan Pensiwn doeth neu trwy ffonio **0800 138 3944**.

Mae **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn cynnig cyngor arian diduedd am ddim, gan gynnwys pensiynau a gwybodaeth ymddeol.

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau** yn cynnig arweiniad a gwybodaeth ddiduedd am ddim am bensiynau. Ewch i wefan y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau i gael mwy o wybodaeth, i ddefnyddio eu hoffer cynllunio neu i ofyn cwestiwn, neu eu ffonio ar **0300 123 1047**.

**Which?** Yw'r corff defnyddwyr annibynnol mwyaf yn y DU. Maent yn darparu cyngor diduedd ac yn cyhoeddi canllawiau i ddefnyddwyr, gan gynnwys ar faterion pensiwn.

**Unbiased** yw gwefan rhestr ddiduedd sy'n rhestru cynghorwyr ariannol rheoledig ac annibynnol, broceriaid morgeisi, cyfreithwyr a chyfrifwyr. Mae'n gwirio bod pawb wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Yr **Awdurdod Ymddygiad Ariannol** (FCA) yw'r corff rheoleiddio ar gyfer cynghorwyr ariannol annibynnol. Gall yr FCA eich cynorthwyo i sylwi ar arwyddion sgamiau buddsoddi a phensiwn.

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn rhwydwaith o 316 o elusennau annibynnol ledled y Deyrnas Unedig yw Cyngor ar Bopeth sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor cyfrinachol am ddim i gynorthwyo pobl ag arian, problemau cyfreithiol, defnyddwyr a phroblemau eraill.

Mae **Age UK** yn darparu gwybodaeth a chyngor ar arian a materion cyfreithiol, iechyd a lles, gofal a chefnogaeth a llawer mwy.

Mae **Independent Age** yn elusen pobl hŷn sydd wedi'i lleoli yn y DU. Maent yn darparu amrywiaeth o wybodaeth megis cymorth gyda threth y cyngor, credyd pensiwn, lwfans presenoldeb a llawer mwy. Gallwch weld eu holl gefnogaeth ar wefan Independent Age neu gallwch eu ffonio ar **0800 3196789**.

# Cynlluniwr Cyllideb

Mae'n bwysig deall ble rydych chi'n gwario'ch incwm.  Bydd hyn yn eich helpu i ddarganfod faint o incwm y bydd ei angen arnoch ar ôl ymddeol. Gallwch ddefnyddio'r cynlluniwr cyllideb hwn fel man cychwyn.

## Incwm (wythnosol / misol)

| | |
|---|---|
| Cyflog | £ |
| Cyflog (Partner) | £ |
| Budd-dal | £ |
| Arall 1 | £ |
| Arall 2 | £ |
| Arall 3 | £ |
| **Cyfanswm Incwm** | £ |

| **Gwariant (wythnosol / misol)** | |
|---|---|
| Morgais / rhent | £ |
| Benthyciad/au, cerdyn credyd | £ |
| Tir<br>tâl rhent / gwasanaeth | £ |
| Yswiriant | £ |
| Treth Cyngor | £ |
| Nwy | £ |
| Trydan | £ |
| Dwr | £ |
| Bwyd/Cadw tŷ | £ |
| Teithio | £ |
| Ffôn / ffôn symudol | £ |
| Trwydded Teledu / tanysgrifiadau Teledu | £ |
| Rhyngrwyd | £ |
| Dillad | £ |
| Presgripsiynau / costau iechyd | £ |
| Argyfyngau | £ |
| Arall 1 | £ |
| Arall 2 | £ |
| Arall 3 | £ |
| **Cyfanswm gwariant** | £ |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Incwm** | **£** | |
| **Cyfanswm gwariant** | **£** | |
| **Incwm ar gael** | **£** | |

## Sut i ddarganfod mwy

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o wefan aelod CPLlL.

Gallwch ymweld â'n gwefan yn: **www.cronfabensiwndyfed.org.uk**
Gallwch hefyd gysylltu â ni:
Dros y ffôn: **01267 224 043** rhwng 9yb a 5yp
Trwy e-bost: **pensiynau@sirgar.gov.uk**
Yn ysgrifenedig: **Cronfa Bensiwn Dyfed, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB**.

## Diogelu Data

Cyngor Sir Gâr yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Dyfed a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn:
**www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

## Ymwadiad

Pwrpas y canllaw hwn yw cynorthwyo aelodau gyda'u cynllunio ymddeol. Mae at ddefnydd cyffredinol ac ni all gwmpasu pob amgylchiad personol. Nid yw'r canllaw yn cynnwys lwfans a lwfans oes cwbl flynyddol na'r goblygiadau treth i aelodau sy'n mynd y tu hwnt i'r terfynau hyn. Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol neu statudol ac fe'i darperir at ddibenion gwybodaeth yn unig. Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch eich buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf. Roedd y ddogfen hon yn gywir ar y dyddiad y cafodd ei hysgrifennu. Gall ffactorau a gwybodaeth newid; ewch i'r gwefannau perthnasol os oes angen.

Ni all y canllaw yma gynnwys pob amgylchiad personol ac yn wyneb unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn bydd y ddeddfwriaeth briodol yn trechu. Nid yw'r canllaw yma yn cyflwyno unrhyw hawl cytundebol neu statudol ac fe'i darparir ar gyfer pwrpas cyfleu gwybodaeth yn unig.

Nodwch os gwelwch yn dda na fydd y canllaw yma yn berthnasol yng nghyswllt yr holl amgylchiadau os ydych i dderbyn **buddion pensiwn gohiriedig** gan CPLIL yn y dyfodol agos.